

Cefnogi cynnydd disgyblion: dadansoddiad manwl o ddatblygiad cyfannol un plentyn gan gyfiawnhau'r camau dysgu nesaf.

Cyflwyniad

Yn yr aseiniad yma, byddaf yn casglu a gwerthuso gwaith wrth un plentyn er mwyn galluogi datblygiad cadarnhaol yn y dysgu. Wrth gymryd rhan yn yr arsylwad yma, defnyddiais ddull Mosaig (Clarke, 2007) sy'n defnyddio llais y plentyn ar gyfer adnabod anghenion dysgu'r plentyn yng nghyfannol. Cysylltir hyn i'r anghenion newydd y cwricwlwm (Llywodraeth Cymru, 2019) trwy gynnig addysg holistig a chynnwys addysg ar gyfer y plentyn cyfannol drwy ddilyn y 4 diben ag awgrymir gan Donaldson (2014).

Leolir yr ysgol gan Estyn (2013) yn ardal wledig yng ngorllewin Cymru. Cafwyd ei ddisgrifio fel ardal sydd ddim yn dioddef o ddifreintedd economaidd. Canlyniad hyn yw bod tua 6% o blant yn derbyn prydau bwyd am ddim sydd yn sylweddol is na'r sir a'r ffigwr cenedlaethol. Mae yna 66 o blant yn mynychu'r ysgol gan gynnwys 20% o rain yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Adnabyddir bod tua 24% o blant gan anghenion dysgu ychwanegol sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol wedi'i sgorio'n dda ar draws bob agwedd arsylwad gan Estyn (2013).

Mae'r plentyn a ddewiswyd am yr aseiniad yma yn gallu canolig ym mlwyddyn 6 gan dueddiadau o gyrraedd yn uwch na'i allu mewn ambell bwnc. Dewiswyd y plentyn gallu canolig wrth awgrymiad yr athrawes dosbarth er mwyn annog i allu cyrraedd safonau'n uwch na'r disgwyliadau cyfredol. Mae'r plentyn yn rhan o'r ganran sydd wrth deulu gyfrwng Cymraeg adref ac o ganlyniad, dangoswyd cyraeddiadau uwch o fewn pynciau Gymraeg. Gwelwyd bod y disgybl gan ddiddordeb a sgiliau uchel ynglŷn â chwaraeon mi fydd ym mhwynt i'w ystyried drwy gydol yr aseiniad.

Casglu data

Cyn casglu'r data, sicrhawyd fod yr ymchwiliad yn foesebol drwy dderbyn caniatâd o'r ysgol a'r rhiant. Wrth gyfeirio tuag at atodiad A a B, derbyniwyd caniatâd addas sydd yn angenrheidiol cyn gychwyn yr arsylwad. Eglurwyd fod gan y rhiant a'r plentyn yr hawl i dynnu nôl o'r arsylwad ar unrhyw adeg os teimlwyd yn anghyffyrddus. Gwnaethant cytuno i'r amodau gosodwyd ac o ganlyniad bydd y plentyn wedi'i enwi'n ddisgybl A er mwyn sicrhau cyfrinachedd a chyrraedd disgwyliadau diogelwch data'r ysgol.

Dull Mosaig

Defnyddiwyd y dull Mosaig Clarke a Moss (2011) o fewn yr aseiniad er mwyn casglu tystiolaeth o'r disgybl yn dysgu'n gyfannol. Mae'r dull yma yn rhoi'r cyfleoedd i blant neu oedolion adfyfrio ar brofiadau dysgu personol (Clark a Moss, 2011:4). Wrth ddefnyddio'r dull yma, gwelir bod angen casglu tystiolaeth gwaith disgyblion, nodiadau athrawon, tynnu lluniau a chyfweiliad a'r disgybl ac athrawon. Yn sicr, bydd creu gwersi sydd yn hybu agweddau adfyfyriol nid unig bersonol, ond rhyngweithiol gyda chyfoedion yn llywio dysgu eu hunain (Clark a Moss, 2011:9).

Cyfweiliad

Cynhaliwyd cyfweiliad yn gyntaf gyda'r athrawes dosbarth er mwyn gallu penodi'r disgybl targed. Roedd angen cynnal trafodaeth am gyraeddiadau blaenorol disgybl A a'i meysydd i'w ddatblygu dros y cyfnod dysgu byr o fewn y lleoliad. Defnyddiwyd y dull yma ar ddechrau'r lleoliad i sicrhau cynllunio addas a datblygiad graddol ym mhob gwers. Gan ddefnyddio'r dull mosaig (Clark a Moss, 2011), trafodwyd gyda disgybl A am feth meddyliwyd sy'n bwysig iddyn nhw wrth iddynt ddysgu. Gwelwyd bod y dechneg hon yn effeithiol oherwydd rhoddir y cyfle i ddisgybl A feddwl yn wybyddol am addysg bersonol mi fydd allu llywio'r cynllunio.

Nodiadau

Roedd angen ysgrifennu nodiadau yn ystod neu ar ôl sesiynau dysgu am gynnydd y plentyn. Rhoddwyd hyn cyfleoedd i roi adborth am agwedd personol tuag at waith yn enwedig os oedd cymhlethdod y dasg yn rhy hawdd neu heriol. Wrth ysgrifennu canfyddiadau, rhoddwyd cyfleoedd i adnabod sut ydy'r disgybl yn dysgu'n gyfannol wrth adnabod diddordebau, gwendidau a chryfderau wrth weithio.

Wrth edrych ar ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) (2008) am gofnodi data, dywedid bod ysgrifennu nodiadau yn hollol bwysig oherwydd ei effeithiolrwydd o gadw tystiolaeth o lwyddiannau'r plentyn. Sicrhawyd bod llyfr arsylwi (atodiad Ch) ar gael ym mhob achlysur i benodi lawr unrhyw wybodaeth mi fydd yn bwysig ystyried wrth gynllunio.

Cyfyngiadau nodwyd gan Wragg (1999) ynglŷn â nodiadau yw'r posibilrwydd o allu cyfyngu'r ymchwil i ddarganfod agweddau penodol. Ymhelaethwyd trwy adnabod os canolbwyntir ar ysgrifennu'r nodyn hefyd, awgrymwyd fod y plentyn gallu teimlo pwysau am unrhyw weithgaredd byddant yn cyfranogi ynddo. O ganlyniad, mae angen ystyried teimladau'r plentyn wrth arsylwi i sicrhau ni fydd y plentyn yn teimlo'n anghyffyrddus a dylai ymdrechu fod yn gwbl naturiol yn y wers.

Casglu tystiolaeth

Yn ystod y cyfnod dysgu, casglwyd nifer o esiamplau gwaith fwyaf diweddar y plentyn i allu adnabod ei lefel fwyaf cyfredol. O ganlyniad, rhoddwyd nifer o dystiolaeth wrth wahanol feysydd er mwyn cymharu â dadansoddi'r safon ac adnabod gwelliannau. Mae casglu tystiolaeth yn ddull effeithiol i allu adnabod safon gwaith fel nodir gan Clarke a Moss (2011) yn y dull Mosaig. Serch hynny, amlygwyd i'r plentyn bod y gwaith i gyd yn gyfrinachol er mwyn sicrhau anhysbysrwydd llwyr wrth dduo'r enwau wrth bob dogfen. Cyfyngiadau megis

a'r dull yma yw'r nifer o dystiolaeth sydd ar gael. Gan fod y nifer o dystiolaeth ddim yn nigonol, awgrymir lefelau ar gyfer y disgybl yn seiliedig a'r dogfennau a derbyniwyd.

Unwaith eto, mae angen dilyn nid unig ganllawiau'r ysgol, ond canllawiau BERA (2018) yn gyson i sicrhau ymchwiliad safonol ni fydd yn effeithio ar ddiogelwch neu gyfrinachedd y disgybl.

Dadansoddiad Dysgwr

Casglwyd nifer o dystiolaeth dros y cyfnod byr ar leoliad wrth y gorffennol i'r presennol.

Cafwyd llawer o brofiadau i addysgu sgiliau gwahanol gan gofio i ddefnyddio'r fframweithiau cywir ar gyfer pob pwnc. Yn olau hyn, dechreuwyd drwy ddefnyddio dull mosaig Clark a Moss (2011:15) i gymryd ffotograffau o leoliadau ysgol ac sydd yn helpu nhw i ddysgu yn effeithiol. Wrth edrych yn fanwl ar atodiad C, mae defnydd o'r amgylchedd dysgu yn amlygu fel rhan bwysig i ganfyddiad plentyn o sut mae'n dysgu'n bersonol.

Gwelwyd bod nifer o'r lleoliadau tu allan i'r dosbarth. Dywedir Cremin a Burnett (2018:144) fod defnydd effeithiol o'r amgylchedd naill ai tu fewn neu du allan yn ymestyn cyfleoedd a syniadau plant ac yn atgyfnerthu eu dysgu.

Ar ôl trafod a disgybl A, dywedid ei bod yn dysgu orau gydag eraill yn aml oherwydd rhoddir hyn cyfleoedd i wrando ar farn neu safbwyntiau eraill. Serch hynny, gwnaeth llawer o gynlluniau gwersi cynnwys agweddau rhyngweithiol i allu sbarduno dysgu rhwng plant eraill.

Llythrennedd

Gwelwyd fod llythrennedd Cymraeg yn faes cryf gan ddisgybl A, oherwydd ei gefndir teuluol sy'n gyfrwng Cymraeg. O ganlyniad, gwelwyd fod yr ysgrifennu a dealltwriaeth yn cyrraedd safonau da, er mae yna wallau yn seiliedig â threiglo a sillafu yn bodoli'n aml yn waith gorffennol. Wrth edrych ar atodiad D, gwelwyd fod iaith yn safonol iawn gan

ddefnyddio geirfa arbenigol yn lleoliadau cywir. Er hynny, mae yna wallau ynglŷn â chystroen brawddeg sy'n effeithio ar safon a threfn y gwaith hynny.

Adnabyddir y diffygion yma fel meysydd i'w ddatblygu dros sesiynau iaith y dyfodol. Wrth edrych ar atodiad Dd, dangoswyd llawer o'r camgymeriadau ynglŷn â sillafu geirfa syml e.e. rhestr, cyffrous, neu ddefnyddio geirfa ansafonol Saesneg sef 'saff'. Wrth gyfeirio at yr adborth ar yr atodiad, gwelir fod y plentyn wedi cynnwys treigladau cywir mewn sefyllfaoedd cywir e.e. treiglo'n feddal ar ôl arddodiad. Dangoswyd hyn y ddealltwriaeth â threiglo o fewn yr amodau cywir fel esboniwyd yn y fframwaith iaith Gymraeg sef, "treiglo'n gywir ar ôl arddodiad a rhagenwau" (Cynulliad Cymru, 2016:12).

Adnabyddir fod treiglo yn faes cryf gan y disgybl ac o ganlyniad, cynlluniwyd dyluniant addas i gyfoethogi'r dysgu yna. Wrth edrych ar atodiad E, ychwanegwyd rheol newydd i dreiglo'n gywir sef treiglad llaes ar ôl cysylltair. Gwnaeth y wers cynnwys pennod wrth lyfr sydd â chamdreiglad ar ôl arddodiad a chysylltair. Dangosodd y wers yma agweddau o ryngweithio ag eraill a oedd yn hanfodol i ddatgeli wybodaeth o blaid ac yn erbyn digoedwigo. Mae'r pwnc digoedwigo yn faes a rhoddir llawer o ymatebion gan ei fod yn agwedd mor ddifrifol heddiw. Gwnaeth hyn cynnal trafodaeth enfawr gan y dysgwyr gan ganolbwyntio yn unig ar wrthwynebiad ddigoedwigo.

Roedd y cynnydd ieithyddol yn gadarnhaol wrth i ddisgybl A cynnwys treigladau cywir o fewn ei waith. O ganlyniad i hyn, arweiniwyd tuag at greu llythyr ffurfiol a chynhwysid nifer o elfennau o'r fframwaith. Amlygwyd hyn yn y darn o waith sef atodiad F oherwydd agweddau ymchwilio a strwythuro gwaith yn bwysig i drefn y gwaith. Nodwyd gan y fframwaith bod y disgybl gallu strwythuro a chynllunio ysgrifennu er mwyn gweithredu cydestun addas i gynulleidfa amrywiol (Cynulliad Cymru, 2016:11).

Ar ôl trafodaeth gysylltiedig â'r gweithgareddau yma, dywedodd disgybl A ei bod wedi mwynhau'r tasgau yma'r fwyaf oherwydd agweddau rhyngweithiol ac ymchwiliol.

Ymhelaethodd drwy ddweud ei bod wedi mwynhau creu strwythur dealladwy mi fydd o ddefnydd ar gyfer y tasgau'r dyfodol. Gwelwyd bod effaith hyn yng nghysylltiedig i ddamcaniaeth Nottingham (2013:3) sef anelu hybu plentyn sydd ag Agwedd, Sgiliau a Gwybodaeth. Credwyd fod defnyddio ymchwil o fewn y gwersi yn ddull effeithiol o greu disgybl sy'n chwilfrydig a hybu agwedd gadarnhaol tuag at ei addysg.

Mae'r dystiolaeth yn y darnau i gyd yn dangos taw elfen ysgrifenedig yn cyrraedd lefel 4 gan fod gwallau sillafu o eirfa syml yn digwydd yn rheolaidd. Adnabyddir bod ddisgybl A yn treiglo'n gywir mwyafrif o'r amser a chynnwys paragraffau i drefnu gwaith yn daclus (Cynulliad Cymru, 2016:17). Gwelwyd bod yna ddatblygiad graddol dros yr wythnosau wrth i ddisgybl A adnabod treigladau gwahanol ar ôl arddodiad, cysyllteiriau a rhagenwau.

Arsylwyd bod gan ddisgybl A potensial i allu cyrraedd lefel 5 os atgyweiriwyd y diffygion trafodwyd yn gynharaf.

Rhifedd

Dysgwyd llawer o sesiynau mathemateg yn dilyn meysydd trin data a ffracsiynau.

Adnabyddir lefel rhifedd yn amrywio'n ddibynnol ar y maes gan yr athrawes dosbarth ac o ganlyniad, aseswyd y gwaith fwyaf diweddar i lywio cynllunio. Ar ôl trafodaeth gyda disgybl A, dywedodd fod mathemateg yn bwnc anffafriol ac o ganlyniad efallai ddim yn mwynhau cyfranogi yn y gwersi yna.

Dilynwyd y fframwaith rhifedd ar gyfer llywio cynlluniau gwersi. O fewn y fframwaith, y disgrifiad ar gyfer ffracsiynau oedd, "defnyddio'r ddealltwriaeth o gywerthoedd ffracsiynau, degolion a chanrannau syml, e.e. canfod 25% o 60cm a gwybod bod hyn yn gyfwerth â $\frac{1}{4}$ o 60cm" (Cynulliad Cymru, 2015:4). Wrth gyfeirio tuag at atodiad Ff, dangosodd y plentyn

dealltwriaeth dda o sut i rannu drwy ddefnyddio ffracsiwn o fewn sefyllfa bob dydd. Roedd ymatebion yn y sesiwn yn rhai aeddfed yn enwedig wrth gyrraedd y cwestiynau ymestynnol.

O fewn y sesiwn yma roedd ymatebion yn gadarnhaol gan ddisgybl A. Gwnaeth ddangos dealltwriaeth effeithiol o symleiddio ffracsiynau a dangos sgiliau cyfrifo cyfansymiau yn effeithiol. Amlinellwyd ar ddechrau'r sesiwn does dim un ffordd o allu darganfod yr ateb fel trafodir gan Haylock and Manning (2014:9). Ymhelaethwyd drwy ddweud bod hybu plant i ddefnyddio ffordd sydd fwyaf dealladwy iddyn nhw yn bwysig tuag at wir dealltwriaeth o'i haddysg. O ganlyniad, teimlwyd bod disgybl A wedi ymdopi gyda datrys problem drwy ddefnyddio dull addas dealladwy. Cyfyngiadau datblygu yn y sesiwn oedd ymestyniad o gysylltu ffracsiynau i ganrannau. Roedd dealltwriaeth effeithiol gan y disgybl am ffracsiynau er oedd yna ddim cyfleoedd ar gael i allu ymestyn sgiliau newydd e.e. trosglwyddo ffracsiwn mewn i ganran.

Symudwyd y wers ymlaen i ganolbwyntio ar drin data sydd yn rhan arall o'r fframwaith gan Gynulliad Cymru (2015:9). Roedd yr elfen yma'n ag gofynion ychwanegol o ddadansoddi data a'i gyflwyno mewn i ddull addas i'w cyfleu. Serch hynny, gwelid bod defnydd o gymedr, canolrif, modd ac amrediad chwarae rôl o fewn y gwersi. Cryfder clir oedd gan ddisgybl A oedd y gallu i ddosbarthu'r data a derbyniwyd mewn i graff addas. Dywedid Haylock a Manning (2014:412-413), bod defnyddio graff llinell oedd fwyaf addas i gyfleu'r data yma oherwydd ei bod dros gyfnod o amser. O ganlyniad, gwnaeth ddisgybl A echdynnu gwybodaeth wrth y data a darganfod bod un lleoliad yn fwy cynnes a'i chyfiawnhau gyda brawddeg addas yn esbonio.

Cyfyngiadau ynglŷn â'r sesiwn oedd diffyg her yn y dasg. Wrth gwblhau'r dasg, gwelwyd bod y plentyn heb wario llawer o amser ym mhob cwestiwn er dangoswyd hyn gweithgarwch

delfrydol am sesiynau'r dyfodol. Modd bynnag, dylai'r sesiwn cynnal agwedd o her ynglŷn â darganfod rhifau degol i gynnig amrywiaeth o elfennau dysgu wrth y fframwaith.

Ar ôl dadansoddi gwaith disgybl A, credwyd ei bod yn cyrraedd lefel 4 yn fathemateg wrth y dystiolaeth trin data a ffracsiynau. Cyfyngiadau derbyniwyd yn ystod addysgu mathemateg oedd lleihad yn y nifer o sesiynau oherwydd gweithgareddau allgyrsiol wedi effeithio'n dilyniant gwers. O ganlyniad, er mae yna agwedd cyffyrddus o fewn meysydd ffracsiynau a thrin data, gwelir ei bod heb fanylder yn waith i gyrraedd lefel 5 (Cynulliad Cymru, 2015:11).

Iechyd a lles

Trafodwyd am ddiddordebau'r plentyn a'i hoff leoliadau sy'n dylanwadu ar ddisgybl A yn gadarnhaol. Wrth edrych yn fanwl ar atodiad C, gwelwyd fod mwyafrif o'r lleoliadau tu allan o'r dosbarth gan gynnwys tri llun o fewn amodau chwaraeon neu berfformio. Adnabyddir y rhain fel cyfleoedd i addysgu i ddiddordeb disgybl A wrth gynnal sesiynau gweithgareddau anturus tu allan o'r dosbarth sef ymarfer corff. Mae disgybl A hefyd yn cynnal clybiau ffitrwydd yn wythnosol gan gymryd cyfrifoldeb hyfforddi a chynllunio'r sesiwn ym mhersonol.

Ar ôl trafodaeth a gwnaeth seilio ar ddiddordebau, canolbwyntiwyd yn fanylach am deimladau ddisgybl A. Dywedodd ei bod yn hapus o fewn yr ysgol a theimlwyd yn gartrefol yn yr amgylchedd dysgu. Adnabyddir ei bod yn fwy brwdfrydig pan dderbyniwyd y cyfleoedd i weithio a ffrindiau. Rhoddwyd argraff gadarn ei bod gallu gweithio ag unrhyw un yn y dosbarth yn ystyrlon wrth blant sy'n fwy galluog, i'r plant sydd angen cymorth ychwanegol.

Wrth arsylwi clwb ffitrwydd sy'n weithgaredd allgyrsiol, gwnaeth disgybl A dangos dewrder i redeg y sesiwn chwaraeon a chynlluniwyd o flaen llaw. Nid hyn yw'r unig amser maent wedi rhedeg dosbarth yn effeithiol. Gan fod yr ysgol yn defnyddio nodweddion o'r

cwricwlwm newydd gan Lywodraeth Cymru (2019), rhoddwyd hyn cyfleoedd i'r plant addysgu'r dosbarth amdano faes yn seiliedig a phwnc. Serch hynny, gwnaeth disgybl A creu gwers gyda phartner i gyfuno gyda'r thema ar wib. Gwnaeth dangos hyder a dealltwriaeth o'r wers a'i chyflwyno i'r dosbarth heb broblem sy'n dangos ei pharatoad i weithio mewn sefyllfa siarad gyhoeddus.

Cyfeiriwch tuag at atodiad Ng, cynlluniwyd sesiwn sydd ag agweddau iechyd a lles oherwydd ei ddiddordeb yn chwaraeon ac i ddatblygu cymhwysedd beicio. Yn ystod y sesiwn, gwnaeth dangos dawn yn chwaraeon oherwydd ei agwedd cyffyrddus tuag at gyfranogi mewn gweithgareddau corfforol. Er hynny, gwelwyd bod llawer o sgiliau syml ar goll yn ambell sefyllfa gan gynnwys sut i arafu ac i stopio'n gywir. Serch hynny, dangoswyd bod yna meysydd i'w wella yn seiliedig ag ymarfer corff.

Wrth arsylwi'r sesiwn ffitrwydd ar y llaw arall, gwelwyd ei bod yn seilio rhan fwyaf o'i sesiynau yn unig ar bêl-droed. Gwnaeth hyn ddangos ei bod ddim yn dangos llawer o feddylfryd tuag at agweddau eraill y fframwaith addysg gorfforol (Llywodraeth Cymru, 2008a) sef gweithgareddau anturus, gweithgareddau creadigol ac iechyd, ffitrwydd a lles.

Gwyddoniaeth

Mae gwyddoniaeth nid unig yn cynnwys y pwnc, ond fframwaith sy'n ymwneud a chynaliadwyedd y blaned. Wrth edrych yn atodiad Ng, dangosodd ddisgybl A sgiliau chwilfrydedd er mwyn ymchwilio pwnc penodol fel pwy oedd y dyn gyntaf i gyrraedd y gofod. O fewn y dasg yma, gwnaeth ymchwilio mewn i'r cwestiynau sydd yng nghornel y tudalen ac ymdrechwyd i ddarganfod y wybodaeth yna trwy ddefnyddio sgiliau technoleg gwybodaeth (Llywodraeth Cymru, 2008b).

Mae gwaith cynaliadwyedd yn cynnwys agweddau megis digoedwigo yn yr Amason a thrafodir yn atodiad Ff. Cymharwyd hyn i'r gosodiad wrth y fframwaith sef, "Dylai'r

disgyblion ddefnyddio a datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth drwy ... ystyried pwysigrwydd ailgylchu.” (Llywodraeth Cymru, 2008b:13a). Credwyd gwnaeth ddehongli data yn effeithiol i gyrraedd y cyraeddiadau'r fframwaith yma.

Y Camau Nesaf

Yn y rhan yma, nodwyd y camau ymestyn ar gyfer datblygiad y plentyn drwy ddefnyddio awgrymiadau wrth lenyddiaeth ac ymyrraeth addas i weithredu a hybu gwelliant. Serch hynny, treuliwyd amser yn adnabod y cryfderau a gwendidau o'r dulliau dewisol.

Llythrennedd

Wrth arsylwi gwaith disgybl A, gwelwyd llawer o gamgymeriadau iaith o sillafu geirfa aml-ddefnydd ac ambell gystrawen brawddeg ddryslyd. Er mwyn ddatrys problemau yma i ddechrau, dylai cymryd rhan o fewn gweithgareddau ymarferol. Dywedir gan Martin et al. (2008:133) bod defnyddio gweithgareddau ymarferol yn ddull effeithiol i allu cyfoethogi dysgu. Nodwyd bod cynnig cysyniadau neu safbwyntiau wrth yr athro neu blant yn ffordd effeithiol o allu cyrraedd y nod hynny.

Ar gyfer datblygu treiglo yn waith, gwnaethant ddefnydd o arddangosfeydd sy'n hybu gloywi iaith. Cyfeiriwyd tuag at atodiad H sef y wal tanio'r treiglo. Gwnaeth defnyddio'r wal yma fuddio disgybl A wrth iddi ddefnyddio'r codau QR sy'n cysylltu i eiriadur ar-lein addas. Gwnaeth hefyd dangos y rheolau helpu i dreiglo ar ôl arddodiad. Gwnaeth hyn hybu dysgu drwy ddefnyddio'r amgylchedd wrth ddefnyddio arddangosfa. Dadleuwyr gwnaeth y dull yma ysgogi dysgu effeithiol ar gyfer y plentyn wrth gymryd nodyn o'r amgylchedd i gyfoethogi dysgu.

Wedyn, wrth edrych ar atodiad I, dangosodd disgybl A y priodoleddau o'r arddangosfa Tanio'r Treiglo i helpu yn ei waith. Pan edrychwyd ar unrhyw agwedd treiglo, roedd rhan

fwyaf o'r treigladau yn gywir. O ganlyniad, i hybu dealltwriaeth megis treiglo ymhellach, wrth edrych ar waith Sutton Trust (2019a). Dangoswyd cynllun sy'n gost effeithiol i allu defnyddio gyda'r plentyn er mwyn sicrhau datblygiad parhaol. Bydd cynnal ymyrraeth neu gynllun ynglŷn â sillafu a threiglo sy'n addas ar gyfer y dysgwr. Gwelwyd bod hyn yn ddull effeithiol i allu mireinio ffocws y dysgwr tuag at ei ddiffygion yn well.

Defnyddio llythrennedd mewn arddull diddorol i allu hybu ymatebion delfrydol a datblygu iaith mewn maes ysgrifenedig, darllen a llafaredd. Adnabyddir Corden (2000) bod angen sicrhau bod bob plentyn â chynllun gwaith sy'n ganolog iddyn nhw ar gyfer datblygiad parhaus. Dylai'r dilyniant gwastad cynnwys agwedd o her er mwyn i'r disgybl datblygu'n raddol. Serch hynny, dylai cynlluniau dysgu cynnwys tasgau estynedig mwy heriol ar gyfer ddisgybl Ac yn y dyfodol.

Er mwyn hybu dealltwriaeth plant, dylai'r plant derbyn y cyfle i allu arbrofi gwahanol dechnegau neu iaith. Mae Martin et al. (2008:112) yn dweud hyn sef, "I hear I forget, I see and I remember, and I do and I understand" sy'n cynnwys y pwysigrwydd o allu gweithredu tasgau. Mae hyn yn ddull sy'n gysylltiedig â chysyniad Nottingham (2013:2) sef yr model A.S.K (attitude, skills a knowledge). Wrth addysgu, dylai cynllunio cynnwys bob un o'r agweddau yma er mwyn hybu ethos dysgu da yn enwedig o fewn fwyafrif o wersi i atal llonyddwch yn ei ddysgu.

Rhifedd

Yn ystod sesiynau dysgu rhifedd, gwelwyd bod y sesiynau yn gyfyng iawn. Mae dysgu mathemateg yn rheolaidd yn y dosbarth gallu fod yn brofiad diflas i lawer o'r disgyblion. Adnabyddir Haylock a Manning (2014) amdano ddysgu wrth ddilyn gweithdrefnau a chafwyd ei ddylanwadu o addysg flaenorol. Mae'r sesiynau o ganlyniad yn dangos ei bod yn

gyfyng iawn ar brofiadau a gwnaeth effeithio ar gyrhaeddiad y disgybl ar y pendraw. I wella hyn, dylai gwneud bob ymdrech i ddilyn beth awgrymir yn y rhan yma.

Er mwyn ddatblygu cysyniadau, bydd gwella adnabyddiaeth o ddulliau dysgu seiliedig a lluniadaeth gan ei bod yn perthyn yn agos i agweddau nodwyd gan Nottingham (2013).

Gwnaeth Pritchard (2014) adnabod bod dysgu o fewn y damcaniaeth yma yn cynnwys meysydd dysgu fel nodwyd gan Nottingham (2013). Diffiniad rhoddir gan Pritchard (2014) oedd bod disgyblion gallu adeiladu gwybodaeth bersonol ac ychwanegwyd syniad ychwanegol i'r cysyniad A.S.K Nottingham (2013) sef "Concepts" (Pritchard, 2014:18-19).

Amlygwyd problemau wrth ddysgu oherwydd anawsterau personol am fathemateg gallu effeithio ar ddarpariaeth i'r dysgwr. Dywedir gan Haylock a Manning (2014:7) bod darpar fyfyrwyr neu athrawon yn dangos pryder am addysgu mathemateg oherwydd profiad negyddol personol. Yn olau hyn, bydd darpariaeth bersonol ar gyfer disgybl A chael ei chyfyngu oherwydd teimladau yma. Ymhelaethwyd Haylock a Manning (2014:3) bod dysgu mathemateg yn effeithiol yn cynnwys cyfleoedd i allu ymrwmo'r plant o fewn trafodaethau, cwestiynu, ateb ac esboniadau. Serch hynny, dylai cynllunio cynnwys agweddau yna yn fwy aml er mwyn hybu rhyngweithio a phlant eraill.

Cyfyngiad clir gwnaeth amlygu ei hunain drwy gydol yr astudiaeth oedd arfer dysgu o siarad fel dosbarth wrth gyflwyno neu gwblhau'r gweithgaredd. Mae Thompson (2010:160) wedi arsylwi bod y fath hon o wers yn canolbwyntio ar ddysgu'n weithdrefnol yn hytrach na deall cysyniad mewn ffordd effeithiol. Wrth adnabod hyn, gwelwyd bod rhan fwyaf o'r cynlluniau gwersi yn gweithredu o fewn y fformat yma. Serch hynny, teimlwyd bod angen newid sut i addysgu mathemateg yn effeithiol i allu rhoi cyfle i ddysgu wrth eraill.

Gwelwyd bod gan Sutton Trust (2018) ddulliau effeithiol i allu datblygu maes mae'r plentyn efallai yn tangyflawni sef "Mastery Learning." Pwrpas y dull hwn yw rhoi cymorth

ychwanegol mi fydd gallu cynyddu lefel blaenorol. Mae'r dull hon yn gost effeithiol ac arddangos tystiolaeth ynglŷn â datblygiad ar gyfer unrhyw gallu. I gefnogi'r hyn a thrafodir yn flaenorol, mi fydd canlyniadau yn gadarnhaol os weithredwyd disgyblion o fewn grwpiau neu dimoedd. Mae'n bwysig i allu gosod disgwyliadau uchel ar gyfer y disgyblion er mwyn ymdrechu i gyrraedd yr un lefelau. Canlyniadau da ynglŷn â'r dull hon yw tua chwe mis o ddatblygiad yng ngwaith y disgybl ac yn fwyaf effeithiol os yw'n canolbwyntio ym mathemateg.

Lles ac Iechyd

Mae lles feddyliol plentyn yn bwysig oherwydd heb iechyd meddyliol, mi fydd dysgu yn anoddach i'w gwblhau. Adnabyddir hyn gan Cremin a Burnett (2018:53) drwy ddweud bod ymddiried ag eraill o fewn y dosbarth yn bwysig i blentyn gallu rheoli emosiynau a straen yn effeithiol. Cytunwyd hyn gyda Nottingham (2013) wrth ystyried gwaith Maslow drwy ddweud os mae'r 5 anghenion wedi ei cwrdd, mi fydd y plentyn yn teimlo ei werth. Gwnaeth Pritchard (2014) nodi bod lles meddyliol y plentyn gallu cael ei effeithio gyda materion tu allan yr ysgol mi fydd yn ddylanwadol ar waith y plentyn ar y pen draw. Gwelwyd hyn yn rhwystr rhag addysgu yn y pendraw.

Dylai amgylchedd chwarae rôl enfawr nid unig ym mhлentyndod cynnar, ond drwy gydol oes ei haddysg. Adnabyddir Wilson (2012:58) bod defnydd o'r amgylchedd tu allan yn ddull naturiol effeithiol sy'n ehangu sgiliau cymdeithasol. Ymhelaethwyd drwy adnabod bod amgylchedd tu allan y dosbarth yn chwarae rôl i sicrhau plentyn iachus sydd a gallu i weithio'n gorfforol hefyd.

Cyfngiadau cysylltiedig â defnyddio gwersi awyr agored nodwyd gan MacQuarrie (2018) yw bod yn anodd cysylltu'r awyr agored i'r cwricwlwm os does dim hyfforddiant blaenorol yna. Serch hynny, mi fydd datblygu profiadau ar gyfer y tro nesaf i allu cynnig addysg sy'n

cynnwys agweddau ymarferol tu allan i allu rhoi'r buddiannau a thrafodwyd yn gynharach yn yr aseiniad.

Mae lles meddyliol yn chwarae rhan enfawr o fewn addysg heddiw yn enwedig awgrymiadau Donaldson (2015) ynglŷn â lles meddyliol plant. Er mwyn hybu a gwella dealltwriaeth am les meddyliol defnyddiwyd cynllun Sutton Trust (2019) sy'n hybu cymdeithaseg ac ethos effeithiol yn y dosbarth. Gwelwyd cynllun gan Sutton Trust (2019) sef addysg emosiynol a chymdeithasol. Yn y rhan yma, nodwyd bod y cynllun yma yn ddull effeithiol i greu awyrgylch dysgu cadarnhaol yn y dosbarth ac ysgol. Mae'n ddull costus ar sail amser i hyfforddi staff ond gwelir bod yn ddull effeithiol i allu creu awyrgylch gadarnhaol yn yr ysgol tuag at ddysgu.

Casgliad

I gloi, gwnaeth dull Mosaig Clark a Moss (2011) bod yn fuddiol tuag at adnabod y plentyn yn gyfannol i helpu addysgu. Gwnaeth cysyniad Nottingham (2013) hefyd dangos priodoleddau a defnyddiwyd o fewn y cwricwlwm newydd (Cynulliad Cymru, 2019) ag awgrymir gan Donaldson (2015) sef y 4 diben. Gwelwyd meysydd i'w wella yn arfer dysgu personol i allu addysgu yn fwy effeithiol gan gynnwys y cysyniadau dysgu trafodir gan lawer o'r llenyddiaeth defnyddiwyd.

Mae cryfderau'r ymchwil wedi arddangos cyfyngiadau'r plentyn ynglŷn ag iaith yn dda a'r ddarpariaeth i ymdrechu ysgogi'r marciau yna'n glir. Ar y llaw arall gwelwyd bod dangos tystiolaeth emosiynol yn anodd ei ddangos yn y gwaith ac yn sicr agwedd i'w ddatblygu dros weddill y cyfnod dysgu. Er hynny, doedd disgybl A gan unrhyw broblemau emosiynol ar unrhyw adeg sydd wedi ymddangos yn y gwaith, wrth dangos paratoad i weithio mewn unrhyw achlysur.

Cyfyngiad clir a chafwyd yn ystod yr arsylwad oedd y nifer o dystiolaeth gwaith a chyfleoedd dysgu derbyniwyd. Oherwydd trefniadau blaenorol gan yr ysgol e.e. profion, diwrnodau pontio, ymwelydd a chymedroli. Gwnaeth absenoldeb effeithio ar lif a chysondeb gwersi a gwnaeth cyfrannu i'r nifer isel o dystiolaeth. Teimlwyd felly mae yna fylchau'n bodoli o fewn y data a chredwyd gwnaeth hyn effeithio'r aseiniad hon. Gwelwyd dros y cyfnod pa mor bwysig yw defnyddio'r amgylchedd i hybu addysg safon dda ar gyfer y plant. Gwnaeth argymhellion Haylock a Manning (2014) roi agoriad llygaid i'r pwysigrwydd o ddatblygu hyder mewn arfer dysgu mathemateg er mwyn gallu rhoi'r profiad gorau posib i'r plant o fewn y pwnc.

[4083 o eiriau]

Llyfryddiaeth

British Educational Research Association [BERA] (2018) *Ethical Guidelines for Educational Research*, fourth edition, London. <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-2018> [accessed 29/05/19].

Clarke, A. (2007) 'A hundred ways of listening : gathering children's perspectives of their early childhood environment', *Young Children*, May, pp. 76-81.

Clarke, A. a Moss, P. (2011) *Listening to Young children, the mosaic approach (2nd edition)*, Llundain : NCB.

Corden, R. (2000) *Literacy and learning through talk: strategies of the classroom*, Buckimham : Open University Press.

Cotton, T. (2013) *Understanding and teaching primary mathematics (2nd ed.)*, Harlow : Pearson.

Cremin, T., a Burnett, C. (2018) *Learning to teach in the primary school (4th ed.)*, Abdingdon : Routledge.

Cushman, P. a Cowan, J. (2010) 'Enhancing Student Self-Worth in the Primary School Learning Environment: Teachers' Views and Students' Views,' *Pastoral Care in Education*, Vol. 28, issue. 2, pp. 81-95.

Donaldson (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*, [Online]: <https://gov.wales/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf> [accessed 25/05/19].

Estyn (2013) A report on [REDACTED], [Online].

Gray, C. a Macblain, S. (2012) *Learning theories in the childhood*, Llundain : SAGE.

Haylock, D. a Manning, R. (2014) *Mathematics explained for primary school teachers*,
Llundain : SAGE.

Llywodraeth Cymru (2008a) *Addysg Gorfforol : yng nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru*,
[Online], Available: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/2d/c4/72/8c/d8e44ae2b901424b86ae648c/addysg-gorfforol-yng-cwricwlwm-cenedlaethol-cymru.pdf> (Accessed: 26/05/19)

Llywodraeth Cymru (2008b) *Daearyddiaeth yng nghwricwlwm cenedlaethol Cymru*,
[Online], Available: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/77/8a/8e/b8/e7554d2ab0f68781b72ad75b/gwyddoniaeth-yng-nghwricwlwm-cenedlaethol-cymru.pdf> (Accessed: 26/05/19).

Llywodraeth Cymru (2015) *Rhaglen astudio at gyfer Mathemateg : Cyfnodau Allweddol 2-4*,
[Online], Available: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/6c/f9/0e/f3/5f5c4e6381d915e48d080dd1/rhaglen-astudio-ar-gyfer-mathemateg.pdf>
(Accessed: 26/05/19)

Llywodraeth Cymru (2016a) *Rhaglen Astudio ar gyfer Cymraeg Cyfnodau Allweddol 2–4*,
[Online], Available: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/7e/91/e7/b2/121d4a3e9eaab87a7b2fc5f1/cymraeg-rhaglen-astudio-cyfnodau-allweddol-2-4.pdf> (Accessed: 26/05/19)

Llywodraeth Cymru (2016b) *Rhaglen Astudio ar gyfer Saesneg Cyfnodau Allweddol 2–4*,
[Online], Available: <https://s3-eu-west-1.amazonaws.com/hwb-live-storage/a5/39/a9/6e/db44d10978475866a7156ac/rhaglan-astudio-ar-gyfer-saesneg.pdf>
(Accessed: 26/05/19).

Llywodraeth Cymru (2019) *Canllawiau Statudol drafft : Canllaw i gwricwlwm i Gymru*
2022, Caerdydd : OGC.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008) *Observing Children*, Cardiff : WAG.

MacQuarrie, S. (2018) 'Everyday teaching and outdoor learning : developing an intergrated approach to support school-based provision', *Education 3-13*, vol. 46, issue. 3, Rhagfyr, pp. 345-361.

Martin, T., Lovat, C. a Purnell, G. (2008) *The really useful literacy book*, Abingdon : Routledge.

Nottingham, J., (2013) *Encouraging learning*, Llundain : Routedge.

Pritchard, A. (2014) *Ways of learning : learning theories and learning styles in the classroom* (3rd ed.), Llundain : Routledge.

Sutton Trust (2018) *Mastery Learning*, [Online], Available:

<https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/mastery-learning/> (Accessed 29/05/19)

Sutton Trust (2019a) *Individualized Instruction*, [Online], Available:

<https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/individualised-instruction/> (Accessed 29/05/19)

Sutton Trust (2019b) *Social and Emotional Learning*, [Online], Available:

<https://educationendowmentfoundation.org.uk/evidence-summaries/teaching-learning-toolkit/social-and-emotional-learning/> (Accessed 29/05/19)

Thompson, I. (2010) *Issues in teaching numeracy in primary schools* (2nd ed.), Berkshire : Open University Press.

Wilson, R. (2012) *Nature and young children : encouraging creative play and learning in natural environments* (2nd ed.), Abingdon : Routledge.

Woolley, G. (2014) *Developing literacy in the primary classroom*, London : SAGE.

Wragg, E. (1999) *An introduction to classroom observation* (2nd ed.), London : Routledge.

Wragg, E. (2001). *Assessment and learning in the primary school* (2nd ed.), London :
Routledge/Falmer.

Atodiadau

Atodiad A



Annwyl Riant /Warcheidwad,

Mae ysgol eich plentyn yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Athrofa ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin ac Abertawe. Mae'r ysgol hon yn cynnig lleoliadau i fyfyrwyr sy'n hyfforddi i fod yn athrawon.

Gofynnwyd i'r darpar-athro yn nosbarth eich plentyn ddadansoddi dysgu'r plant fel y gall ef / hi ystyried sut y byddai ef /hi yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt wneud cynnydd. Fel rhan o hyn, bydd darpar-athrawon yn arsylwi ar ddysgu'r plant ac yn gofyn pa bethau a mannau yn yr ysgol sy'n helpu plant ddysgu. Mae'r dasg wedi'i chynllunio i lywio ymarfer y myfyrwyr a chefnogi dysgu plant.

Byddai unrhyw wybodaeth a gasglwyd yn parhau'n gyfrinachol drwy gydol y prosiect, a byddai'r ysgol a'r plant yn parhau i fod yn ddienw yn y gwaith a gynhrychir. Sicrhair i'r wybodaeth a'r canlyniadau a gasglwyd fod yn unol â chanllawiau moesegol y Brifysgol. Os, ar unrhyw adeg, nid yw eich plentyn am rannu syniadau, ni fyddai'n ofynnol iddo/iddi wneud hynny.

Os ydych chi'n hapus i'ch plentyn gyfrannu at y prosiect, cwblhewch y ffurflen ganiatâd rhieni isod os gwelwch yn dda, a'i ddychwelwch yn uniongyrchol i'r ysgol cyn gynted â phosib. Os oes gennych ddiddordeb yng nghanlyniad y prosiect hwn neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Swyddfa Bartneriaeth y Brifysgol - partnership@uwtsd.ac.uk.

Yn gywir,

Mathew Jones

Cyd-lynnydd Modwl – Datyblygiad Ysgol a Chynnydd Disgyblion

Fel Rhiant / Gwarcheidwad, rhoddaf ganiatâd / ni roddaf ganiatâd (dileu) i

(enw plentyn) gymryd rhan yn y prosiect hwn.

Llofnodwyd (Rhiant/ Gwarcheidwad).

Dyddiad 3/5/19

Atodiad B

ENW'R YSGOL (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

[REDACTED]

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (PRINTIWCH OS GWELWCH YN DDA):

[REDACTED]

ENW'R UWCH FENTOR / MENTOR DOSBARTH (LLOFNODWCH OS GWELWCH YN DDA):

[REDACTED]

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn, yna cysylltwch ag : Arweinydd y Rhaglen
Mathew Jones M.Jones@uwtsd.ac.uk

Diolch yn fawr o flaen llaw

DYLLID CYNNWYS COPI WEDI'I LOFNODI YN ATODIAD YR ASEINIAD

Amel Omid

Atodiad C

Lleoliadau sy'n buysig i Blerbyn A.




- Gallu canolig
- Gweithgar iau
- Siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.
- Gryfach yng Nghymraeg na Saesneg.

> Wedi Mynhan
gwrsi 20/5/19
oherydd mae'n
rhyngweithio.

- Mynhan chwaraeon
- > Gweithgareddau
ymarferot yn helpu
datblygiad.
- Dangos dau
cerddorol (canu)

Atodiad D



Dwi wedi creu graff i dangos teimladau dau prif gymeriad or llyfr 'The Explorer' fel y gwelwch chi Mae Minell Fred yn ddangos Mae a yn May Sefydlog na bod yn ofnus am beth sydd wedi digwydd erwynt llyfr Mor belled, ar y llaw arall Mae Minellcon y dangos Mae hi yn Meddwl Mae hi'n yn peeli catasdroffig ac angheddadwy ac hefyd difrifol. Yn fy Marn i Mae con yn Meddwl Mae anfur hon, cangymeriad ac rwyf yn meddwl Mae hi yn mynd i farw pan mae awyren yn disgyn ac yn ffrwydd ac Mae hi yn mor negyddol yn y llyfr 'The Explorer' ac Mae hi mor ofnus aq nerfus.

Atodiad Dd

*Mr Davies: Dydd Mawrth y 7fed o Fai 2019.

BYDSI greu cyfarwyddiadau i Mr. Davies
fynd ar ymliau

Meini prauk llymddiant

• Geiriau agoriadol awgrym

• Trefn gramatigol

• Braiddedol Harol

Cyfarwyddiadau i fynd ar wythnos ar gyliau yng rhwng

Mae'r talfen hon yn helpu chi i fynd ar ymliau. Mae'n atser
cyfnewt pan rydych yn Mynd ar ymliau i fynyau ac ymlacio
yn yr haul ble bynag rydych yn Mynd ar gyliau. Bydd y
talfen hon yn helpu chi ac rhoi tipiau Haur i chi os
rydych yn Mynd ar ymliau. Gwnewch yn siŵr chi yn dilyn
y rhestr yma i helpu chi i gael yr gyliau ardderchog.

Dechreuad da!

Y Canau ansbaridigethus.

1. Yn gynaf ewch ati i fwcio ar y we ac casgli eich pasbort.
2. Hefyd ewch i fwcio gwesty yn y lle rydych yn Mynd i aros
ac foint o wythnosau^{neu} hysoddd yr gdych yn aros.
3. Nesaf parwch eich dillad, elc traul, spectol haul ac hefyd
esgidiau a gwisg netio yn eich bagiau.
4. Rhwng eich y enw Haur o'r clo ar eich bagiau.
5. Casglwch eich ffon ac sicyrhau bod eich batrî yn llawn.
6. Ewch ati i gasglu eich pasport ac tocynnau a cadwch yn
Safu.
7. Coliwch newid eich arion i lira o bynnoddd cyn Mynd i
durri.
8. Wedyn, teithwch i'r¹ Caerdydd 3 neu 2 awr cyn hadfan, ac
byddwch yn cyrraedd yn y Haes awr.
9. Ewch ati i gofrestrî ac aros all y awyren i fod yn baro
i hadfan. Rhwng eich tocynnau ac eich pasport i'r gwesthuyr.
10. Cerddwch i'r Snyddfa diogelwch a rhwng eich bagiau i nhw.
11. Os rydych chi eisïau ewch ati i Siopa i brynu snaziau
ar y taith ac wedyn ewch i'r gat egnir.
12. Rhedwch ar y awyren ac eisieddwrch ar eich sedd.
13. Yn olaf Mwynhewch eich taith **ARBENING!**

* Rwyf wedi greu cyfarwyddiadau masnwl iawn!

* Traiglo a sillafu effeithiol

* Gofalwr dy fod yn sillafu'n gywir!

Atodiad E

	<u>Dydd Mwn, 13^{eg} o Fai 2019.</u>
	<u>BYDS! dreiglo ar ol arddodiad a chysylltair.</u>
<u>Geraint y Cymro</u>	
<u>Cymal 1</u>	
Ar thrac seiclo awyr agored y Maendy, yng ngogledd-ddwyrain Caerdydd y dechreuodd Geraint ar ei yrfa fel seiclwr. Yno y gwelodd y sylwebydd chwaraeon Wyn Gruffydd ef yn rasio am y tro cyntaf, wrth mynd a'i fab i seiclo:	
"Roedd y beic rasio'n rhy fawr iddo, ond roedd yn seiclwr cryf. Ac o'r cychwyn roedd i'w weld yn hyderus ac yn hapus ynddo'i hun. Roedd talent ganddo ac felly mi fyddai'n cystadlu yn y categori oed uwch er ei fod yn llai o rhan maint. Gwnaeth derbyn tipyn o phrofiad wrth rasio er nad oedd yn ennill pob ras. Aeth i'w hwlw y Maendy i datblygu yn y blynyddoedd cynnar hynny. Roedd yn gymeriad penderfynol, ac fe oroesodd sawl damwain gas fel yr un yn Awstralia yn 2005 pan gollodd ei spleen a dreulio cyfnod mewn uned gofal dwys. Ond yn ôl y daeth bob tro i rasio, a hynny heb eholli dewrder. Cymeriad penderfynol iawn."	
Treuliodd Geraint Thomas ei yrfa yn paratoi ar gyfer ei fuddugoliaeth yn Le Tour de France 2018.	
Dros y Penwythnos es i Gŵaroes i chwarae Gwrnament pêl-droed gyda tîm Abergwaun yn erbyn Aarbeth a Neyland. Collwn ni 1-3 er i gen gyfartal. Ges i fedal yr oedd yn ddisgleirio. Ar ôl cael buyd es i a fy prawd a gy chwarae i gerdded fy ngh. i.	
Da iawn! Sicrhaf dy fod yn sillafu'n gywir!	

Dydd Nawrth, 21^{ed} o Fai 2019

B.Y.D.S.I: Jeanythra llythe Pfruciol

Cyflwyniad

- Cynhyrion
 .Cwino am y dygwyddiad
 .Perswasio nhw i newid ei feddwl
 .Trofad y peth
 .Kegienog i osod eni am y
 Oherwydd...
 .Amrwyll...
 .Augur i ysgwrthod...
 Cyswriad di
 dyddiad
 Cyswriad nhw

Agoriaddau Effeithiol

- yn gyntaf
- Ar y llaw arall
- Hedyn
- Nectar
- Telly
- Wedi hynny
- Ysgaflynnod
- Trawdat
- Deallod

Geiriau Allweddol

- Annebrynia
- Ansier
- Egrai th
- Effeithid
- Gollod
- Gerhoddaeth
- Llauer
- Coll;

Yn Esgyn

- . Dinisericio
- . Gyfarfaelodd hwynt i Scarabaeidae
- . Erythrillad Phylloburysion
- . Pablogaethau Erythrillid a
- . Cynnefyn y cael Erythrillad
- . Cymhesu byr eang sydd wrth yr y Coedwigedd
- . Coedwigedd

blaid

- Afneu/adu
- Gyfarfod 25% o feddygon
- % 70% o bharhugwrn yn gallu
ysbadd yn edyn cwmst
- ~~Gyswgr~~
- Motion / yn nodi pwydus gwellu.
- Cynhesu bwd eang
- Pablogaeth glau

3 - diweddgylo

- ~~Dietel~~ yn favor
 . oad. wren
 . yn olog
 . Ede:thio duij wedi newid
 Nadrud an y holl pech.
 Yr eithoch yn gywir.

Atodiad Ff

Dydd Mercher 8^{fed} o Fai

BYDS I adnabod ffraisiynau yn yn sefyllfaoedd bob dydd.

Heddiad o fas awr Gaerdydd

-8 i Dwrci
-6 i Ffrainc
-3 i Foroco
-9 i Eidal
-4 i Alban
-2 i Aluaen

Beth yw ffraisiynau o bob heddiad

Dwrci $\frac{8}{32} - \frac{4}{16} - \frac{2}{8} - \frac{1}{4}$ ✓
Ffrainc $\frac{6}{32} - \frac{3}{16}$ ✓
Foroco $\frac{4}{32}$ ✓
Eidal $\frac{9}{32}$ ✓
Alban $\frac{4}{32} - \frac{2}{16} - \frac{1}{8}$ ✓
Aluaen $\frac{2}{32} - \frac{1}{16}$ ✓

Beth yw Modi?

Eidal = -4 ✓

Beth yw Cyndr?

6 $\frac{10}{32} - \frac{5}{16} - \frac{2}{8} - \frac{1}{4}$ ✓

Beth yw aurediad?

9 - 2 = 7 ✓

Her

Mae gwyliaw i Ffrainc yn costio
£156 mae yna heddiad arall
gan disgownt o $\frac{1}{3}$
faint yw pris y gwyliaw
yna?

0 5 2
8 | 156 ✓

1 5 6
- 5 2
£104 ✓

Y Pris yw £104 an
gwyliaw? ✓

Ffurflen Arsylwi Dysgwr

Enw'r dysgwr/wyr: <i>Plertyn A</i>	Dosbarth: <i>5 a 6</i>
Amser:	Dyddiad: <i>9 / 5 / 19</i>
Gweithgaredd:	
<i>BYDSI: ddehongli a gwerthuso data rhwng ddwy ddinas.</i>	
Sylwadau	
- Wedi adio niferoedd yn gywir a dangos sgiliau rhannu da. - Wedi copio sut i ddehnyddio cymedr, modd, amrediad a charotrif yn gywir heb gymorth. - Aeth ymlaen i greu graff llinell yn annibynnol er mwyn dangos y data yn gywir. - Cwblhawyd y gwaith yma yn gubl annibynnol.	
Beth y mae angen ei wneud i symud yr hyfforddiant ymlaen?	
- ~~Cynnwys~~ Cynnwys cyfle i rannu rif i bwynt degol. - Creu siart 'pie' i ddangos y data rhwng y ddwy ddinas.	

Atodiad Ng

				1B	
Cynllun Sesiwn – Cyfnod Allweddol 2					
Enw'r hyfforddai: Arwel Davies			Cyfeirnod Sesiwn: 23/05/19		
Targed(au) personol o ran SAC: S3.3.2 – Deall fframwaith/sgiliau y cwricwlwm. S3.3.6 – Ystyried diddordeb y disgybl. S3.3.8 – trefnu a rheoli gofod.					
Grŵp blwyddyn: 5 a 6		Nifer y dysgwyr: 19		ADY(ALN):	
Oedolion ychwanegol: 0					
Nod(au) dysgu: Sesiwn beicio				Meini prawf llwyddiant:	
Cysylltiadau â dysgu blaenorol:					
Ymdriniaeth o'r cwricwlwm (ystod, sgiliau) Ymarfer Corff (gweithgareddau anturus) Adnabod pam mae eisiau fod yn feddylgar am ddiogelwch personol ac eraill a sut i barchu'r amgylchedd.					
Llythrennedd(FFLIRh)			Rhifedd(FfLIRh)		
FFCD		Meddwl Meddwl am ddiogelwch eraill sy'n cymryd rhan yn y sesiwn		ADCDF Pam mae beiciau yn bwysig am y dyfodol?	
				YCC	
Geirfa Allweddol(Cymraeg/Saesneg):					
Amser	Gweithgareddau, trefnu a rheoli'r sesiwn			Cwestiynau allweddol / Asesu ar gyfer dysgu	
5 – 10 munud	Cyflwyniad			Plant i gyd asesu beic personol nhw ar ôl gwyllo i.	
	Dangos sut i asesu diogelwch beic cyn ei ddefnyddio drwy edrych ar: - Pedal. - Olwynion. - Cadwyn. - Brecio (blaen a chefn) Byddwn yn trafod pam mae beiciau yn bwysig heddiw a pham mae angen helpu'r amgylchedd.				
25 munud	Prif weithgareddau			Asesu plant wrth fynd o amgylch a herio os yw'n briodol.	
	Creu cwrs sy'n cynnwys digon troeon i hybu troi'n gywir. Bydd y cwrs ar borfa os mae'r tywydd yn caniatáu. Byddant yn adnabod sut i frecio'n effeithiol drwy bwysu am nôl. Mae angen cynnwys lleoliadau i allu: - Brecio. - Mynd yn gyflym. - Troi yn effeithiol. - Sefyll.				

	- Dadlwytho'r beic. <u>Gem goleuadau traffig</u> - Coch = stopio. - Oren = Mynd mor araf ag sy'n bosib. - Gwyrdd = symud ar gyflymder hamddenol.	
5-10 munud	Diwedd glo Trafod beth hoffai'r plant gwneud y tro nesaf. Cynnwys cyfle i feddwl am drac ei hunain hoffai'r plant cyflawni.	Bodiau i fyny a lawr i ganfod dealltwriaeth. Clywed awgrymiadau gan y plant i adnabod os oes lle i wella/ddatblygu.

Atodiad H



Atodiad I

Geirio Gwych

BYDSI: greu llythyr ffurfiol i bwysleisio
pwysigrwydd arbed y coedwigoedd
law.

Dyddiad: Dydd Mercher, 23ain o Fai
2019.

Meini Prawf llwyddiant

- Agoriadau amrywiol
- O leiaf 3 ffaith o blaid ac yn
erbyn digoedwigo
- Ystadegau
- Geirfa wefreiddiol

Arlywydd Brasil,

Jair Bolsonaro

Planalto Palace,

Astrol Ffederal,

Brasilia,

Brasil.

Dydd Mercher, 22ain o Fai 2019

Annuyl Jair Bolsonaro,

Ysgrifennaf ataf chi am y digoedwigoedd ac hefyd i ofyn
pam yn y byd yr ydych chi yn disgrifio y coedwigoedd gwych yna?
Rydus i yn teimlo'n siomedig ac hefyd drist iawn am y
syniad angrhebbus yma. Mae hyn yn peth dwl i mi. Ryf yn
deall Mae hyn yn syniad dda i chi gyd. Dwi yn Anghytuno
gyda'r peth ac hefyd rydych chi i gyd yn ladd yr
anifeiliaid arbennig ac hefyd ei gwneud naw yn ffrwydro.

Atodiad I

Rydus i eisiau dechrau gyda o blaid yn cyneaf, bydd 70% o blanhigion yn gallu ymladd yn erbyn cancer, 25% o feddigion yn helpu Powis. Deallir bydd o'n cynhesur byd eang ac fydd llwy o boblogrith glaw. Hefyd bydd o'n helpu pobl guelb. Ar y llaw arall byddwch chi yn dimistrio popeth dim ond am arian, ie **ARIAN!** Meddyliwrch at y peth yma osgwelwch yn dda. Bydd llwy na honner gyfarfod o'r blanhigion arifeiliaid a crychfilod sydd yn byw yn y coedwigoedd glaw ac dwin gobeithio rydych chi yn siwr corffori yr arifeiliaid rydych chi y Pwysdwr holl lle i nhw. Meddyliwrch at y peth os yr ydych chi yn dimistrio coedwigoedd bydd llai o gar bon deussid.

Gobeithio rydus i wedi newid eich Meddwlau yr holl peth dda yma. Mae hyn yn annirbynniol.

Gwych!
Ystadegau a ffeithiau diddorol! [REDACTED] yr eiddoch yn cywir

- Iaith perswād a safonol!

- Sicrhau dy modd yn creu braudddegau synhwyrol.